

Cylch Gorchwyl y Bwrdd Rheoli Maetholion

Cylch Gorchwyl drafft:

1. Mae'r Bwrdd Rheoli Maetholion yn bartneriaeth strategol gydweithredol hirdymor, a ymrwymwyd iddi ar sail wirfoddol.
2. Amcan y Bwrdd yw nodi a chyflawni camau gweithredu sy'n cyflawni targed cadwraeth ffosfforws ACA Afon Gwyrfa. Y prif fecanwaith ar gyfer cyflawni hyn fydd trwy baratoi a chyflwyno Cynllun Rheoli Maetholion (CRhM).
3. Dangosir aelodaeth y Bwrdd yn atodiad 1 o'r Cylch Gorchwyl hwn.
4. Bydd Aelodau'r Bwrdd yn gyfrifol ac yn atebol am gyflawni camau gweithredu wedi'u nodi ar gyfer eu sefydliadau, yn amodol ar unrhyw gymeradwyaeth ddemocrataidd angenrheidiol, ac am nodi a chael yr adnoddau angenrheidiol i gyflawni'r camau gweithredu.
5. Bydd y Bwrdd yn gweithio gyda'i gilydd i adolygu cyfraniadau ar draws pob sefydliad, gan weithio ar y cyd i gyflawni'r amcanion a sicrhau bod pob aelod yn deall y materion ac yn gweithio gyda'i gilydd i'w datrys.
6. Bydd y Bwrdd yn paratoi Cynllun Gweithredu sy'n nodi amserlen gyda chyfrifoldeb ac atebolrwydd o gamau mesuradwy wedi'u neilltuo i aelodau'r Bwrdd.
7. Bydd y Bwrdd yn adolygu perfformiad a chyflawni camau gweithredu o fewn y cynllun gweithredu.
8. Bydd yr CRhM yn cael ei adolygu'n flynyddol i ddechrau ac yn destun diweddariadau rheolaidd. Ar ôl hynny, bydd yr CRhM yn destun cyfnodau adolygu y cytunwyd arnynt gan y BRM.
9. Bydd y Bwrdd yn rhoi cyfarwyddyd i bartneriaid ymgymryd a gwaith / dyletswyddau perthnasol fydd yn bwydo i mewn i'r cynllun rheoli maetholion, ag i sicrhau fod y cynllun gweithredu yn cael ei wireddu.
10. Bydd y Bwrdd yn cyfarwyddo'r Grŵp Technegol lle mae angen camau gweithredu neu dystiolaeth ychwanegol.
11. Bydd y Bwrdd yn cael ei gadeirio gan Uwch Swyddog (Pennaeth neu gyffelyb) o un o'r Awdurdodau Lleol sydd o fewn dalgyrch yr Afon Gwyrfa. Mi fydd y cadeirydd yn cael ei ail ethol bob dwy flynedd.
12. Bydd y Bwrdd Rheoli Maetholion yn cyfarfod bob chwarter, ond os bydd angen cyfarfod yn fwy aml y bydd dyddiadau yn cael i rannu gan rhoi cymaint o rybudd a phosib.
12. Bydd aelodau'r bwrdd yn gwneud penderfyniadau trwy gonsensws lle bynnag y bo modd, gan annog trafodaeth gydweithredol a chytundeb cydfuddiannol.

DRAFT

Atodiad 1

Aelodaeth Bwrdd Rheoli Maetholion - DRAFFT

Sefydliad	Rôl
Cyngor Gwynedd	Aelod Cabinet – Amgylchedd Pennaeth Adran Amgylchedd Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd Rheolwr Cynllunio Rheolwr Polisi Cynllunio Aelodau Etholedig sydd o fewn dalgylch yr Afon Gwyrfa
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	Prif Weithredwr/Cyfarwyddwyr Cynllunio Pennaeth Rheolaeth Datblygu Pennaeth Polisi Cynllunio
Cyfoeth Naturiol Cymru	I'w gadarnhau
Dwr Cymru	I'w gadarnhau
Undebau Amaethwyr Cymru	I'w gadarnhau